
YR EGLWYS YNG NGHYMRU · THE CHURCH IN WALES

# Week 7: Tair Coeden

## #addewidagobaith #hopeandpromise



Un tro roedd tair coeden yn tyfu ochr yn ochr yn y goedwig. Roeddynt yn ffrindiau da ac yn gwario'u hamser yn sgwrsio a chwerthin. Er iddynt fod yn debyg o ran uchder, ac yn tyfu yn y r'un goedwig, roedd y dair yn wahanol iawn i'w gilydd. Cara'r goeden gyntaf y pethau hardd. Roedd yr ail goeden yn caru antur. Roedd y trydydd goeden yn caru Duw.

Un diwrnod roedd y coed yn trafod beth hoffai nhw fod ar ôl tyfu i fyny.
“Pan dwi wedi tyfu, dwi eisiau bod yn gîst wedi ei cherfio'n hardd, a byddaf y llawn o emwaith disglair,” meddai'r goeden gyntaf.
“Pan dwi wedi tyfu, dwi eisiau bod yn long cryf, cadarn, a bydd fy nghapten yn anturiaethwr o fri yn darganfod tiroedd newydd,”meddai'r ail goeden.
“Dwi ddim eisiau cael fy newid yn unrhywbeth. Dwi am aros yma, yn tyfu yn uwch bob dydd, nes i mi fod y goeden dalaf yn y goedwig. Yna, pan fydd pobl yn edrych arnaf, byddant yn gweld fy mod yn eu pwyntio tuag at Dduw,” meddai'r trydydd coeden.

Aeth blynyddoedd heibio,ond un diwrnod fe ddaeth tri torrwr coed i'r goedwig a torri'r dair coeden i lawr. “O ardderchog, mae fy mreuddwyd o fod yn gîst hardd am ddod yn wir o'r diwedd,”gweiddodd y goeden gyntaf. “O gwych, mae fy mreuddwyd o fod yn gwch hwylio cryf am ddod yn wir,” gweiddodd yr ail goeden. “O na, rwan ni allaf bwyntio i fyny at Dduw!” sibrydodd y trydydd goeden yn drist.

Fe gariwyd y coed o'r goedwig ac i ddwy ohonynt roedd y dyfodol yn edrych yn ddisglair, ond, cyn hir, roedd y dair wedi ffarwelio a'u cynlluniau cynnar.

Yn lle cael ei droi yn gîst hardd, llawn gemwaith, cafodd y cyntaf i droi yn focs brwnt, hull, preseb i fwydo anifeiliaid.

Yn lle cael ei droi yn llong hwylio ysblennydd, cafodd yr ail goeden ei droi yn llong hwylio syml.

Ni chafodd y trydydd goeden ei throi yn unrhywbeth, dim ond ei llifio yn blanciau pren a'u gadael yn yr iard goed.

**Amser myfyrio**

**Yn y stori, roedd gan pob coeden gynllun i'w ddyfodol, ond mi oedd gan Dduw wahanol gynllun iddynt. I gychwyn nid oedd cynllun Duw mor gyffrous a'i syniadau gwreiddio nhw, ond yn y pen draw fe ddefnyddiodd Duw pob un ohonynt i chwarae rhan bwysig ym mywyd yr Iesu, o'i enedigaeth i'w farwolaeth. Fe ddaeth y coed i sylweddoli mai'r Iesu oedd y trysor mwyaf ar y ddaear ac yn y nefoedd, a bod eu gobeithion a'u breuddwydion wedi dod yn wir.**

**Fe sylweddololodd y trydydd goeden hefyd nad oedd angen bod y talaf i bwyntio'r pobl at Dduw achos mi oedd eisioes yn gwneud hyn. Felly mae'n rhaid i ni gyd sylweddoli ein bod yn rhan o gynllun Duw, does dim rhaid disgwyl i dyfu yn dal i fod yn rhan o'r cynllun yma, achos mae popeth da rydym yn ei wneud yn ein cyflyrru tuag at Dduw.**

**Wrth i'r blynyddoedd fynd heibio, yn ara bach fe ddysgodd y coed i fyw gyda'i breuddwydion coll.**

**Yna, ar noson oer o aeaf, newidiodd bopeth i'r goeden gyntaf. Fe anwyd baban, ond nid baban cyffredin mo hwn. Fe ganodd Angylion. Daeth bugeiliaid a dynion doeth i'w weld. Dyfalwch pa focs bwydo anifeiliaid, pa breseb, defnyddiodd ei fam fel crud? Pan sylweddolodd y goeden gyntaf beth oedd wedi digwydd, fe lenwodd ei chalon â llawennydd pur. "Mae fy mreuddwydion wedi dod yn wir ta beth. Efallai nad oes gemwaith drud nag aur gwerthfawr gennyf ond dwi wedi dal y trysor mwyaf gwerthfawr ar y Ddaear."**

**Aeth tua 30 o flynyddoedd heibio cyn i bethau newid i'r ail goeden. Pan oedd allan yng nghanol y llyn, fe chwythodd storm wyllt, ac roedd y goeden fach yn meddwl y buasai'n suddo. Ond yna fe ddigwyddodd rhywbeth rhyfeddol. Safodd un o'r dynion ar y gwch. "Heddwch, byddwch lonydd!" dywedodd wrth y gwynt a'r tonnau, ac fe giliodd y storm. Pan sylweddolodd yr ail goeden beth oedd wedi digwydd, fe lenwodd ei chalon a llawennydd pur. "Mae fy mreuddwydion wedi dod yn wir ta beth. Efallai nad wyf wedi cario anturiaethwr o fri, ond dwi wedi cludo crewr nefoedd a Daear."**

**Fe newidiodd pethau i'r trydydd goeden chydig ar ôl hyn hefyd. Daeth saer coed a'i gymryd. Ond yn siom i'r goeden ni chafodd ei droi yn unrhywbeth hardd na defnyddiol. Na fe gafodd ei droi yn groes bren bras. "O na! Dyma'r math o groes sy'n cael ei ddefnyddio i groeshoelio troseddwyr!" meddyliodd y trydydd coeden. Fe ddyliai fod y diwrnod gwaethaf o fywyd y goeden-heblaw am un peth. Roedd y dyn â oedd yn hongian ar y groes mewn poen ofnadwy ddim yn droseddwr cyffredin. Na yr Iesu oedd yna, y dyn roedd Cristnogion yn credu i fod yn fab Duw-ac roedd yn marw.**

**Pan sylweddolodd y trydydd goeden beth oedd yn digwedd, fe lenwodd ei chalon a llawennydd pur.**

Ddysgwyr, uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau.

# Follow us on twitter @churchinwales

**@diostasaphedu @pobldewi @esgobaethbangor @llandaffed @swanbreced @apmdaly**